OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1897 (Cy.170)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*15 Gorffenaf 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*15 Gorffenaf 2009*
Yn dod i rym - -	*16 Gorffennaf 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), 17(1), 26(1)(a) a (3), 31 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a pharagraffau 1 a 4(b) o Atodlen 1 iddi(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy (**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi ystyriaeth i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 16 Gorffennaf 2009.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007(**4**).

(**1**) 1990 p. 16; disodlwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "bwyd") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Cafodd adran 48 hefyd ei diwygio gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p. 40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**3**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 202/2008 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch nifer ac enwau Panelau Gwyddonol parhaol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (OJ Rhif L60, 5.3.2008, t.17).

(**4**) O.S. 2007/3165 (Cy.276).

Diwygio Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007

2. Diwygir y prif Reoliadau yn unol â rheoliadau 3 i 8.

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(1) Dileer y diffiniad o "Cyfarwyddeb 80/777"; a

(2) yn union ar ôl y diffiniad o "Cyfarwyddeb 2003/40" mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "Cyfarwyddeb 2009/54" ("*Directive 2009/54*") yw Cyfarwyddeb 2009/54 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddatblygu a marchnata dyfroedd mwynol naturiol (**5**);";

(3) yn lle'r diffiniad o "dŵr mwynol naturiol" rhodder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "dŵr mwynol naturiol" ("*natural mineral water*") yw dŵr—

(a) sy'n iachus yn ficrobiolegol;

(b) sy'n tarddu o lefel trwythiad neu ddyddodion tanddaearol ac sy'n codi allan o ffynnon a dapiwyd mewn allanfa neu allanfeydd naturiol neu wedi'u tyllu;

(c) y gellir ei wahaniaethu'n amlwg oddi wrth dŵr yfed cyffredin oherwydd y nodweddion canlynol a gafodd eu cadw'n ddifreg oherwydd tarddiad tanddaearol y dŵr a rhaid bod y tarddiad hwnnw wedi cael ei ddiogelu rhag pob risg o lygredd—

(i) ei natur, a nodweddir gan ei gynnwys mwynol, elfennau hybrin neu ansoddau eraill a, pan fo hynny'n briodol, gan effeithiau penodol, a

(ii) ei purdeb gwreiddiol; ac

(ch) sydd am y tro'n cael ei gydnabod yn unol â rheoliad 4;"

4.—(1) Ym mhob un o'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), yn lle'r cyfeiriad at "Cyfarwyddeb 80/777" rhodder cyfeiriad at "Cyfarwyddeb 2009/54".

(2) Y darpariaethau yw rheoliad 2(2) a (3) a rheoliad 4(1)(b) ac (c) ac (8) (cydnabyddiaeth fel dŵr mwynol naturiol).

5. Yn rheoliad 8 (marcio, labelu a hysbysebu dŵr mwynol naturiol)—

(1) yn lle paragraff 1(c) rhodder y paragraff a ganlyn—

"(c) unrhyw fynegiad, dynodiad, marc masnachol, enw brand, darlun neu arwydd arall, p'un ai'n ffigurol ai peidio, y mae'r defnydd ohonynt yn awgrymu nodweddion nad yw'r dŵr yn meddu arnynt, yn benodol o ran ei darddiad, dyddiad yr awdurdodiad i'w ddatblygu, canlyniadau dadansoddi neu unrhyw gyfeiriadau tebyg at warantau dilysu;";

(2) yn lle paragraff (1)(f) rhodder y paragraff a ganlyn—

"(f) disgrifiad gwerthu heblaw—

(i) yn achos dŵr mwynol naturiol eferw, un o'r canlynol, fel y bo'n briodol—

(aa) "naturally carbonated natural mineral water" i ddisgrifio dŵr y mae ei gynnwys o garbon deuocsid ar ôl ardywallt, os digwydd hynny, a photelu yr un ag a geir wrth y ffynhonnell, gan gymryd i ystyriaeth pan fydd yn briodol ailgyflwyno mesur o garbon deuocsid o'r un lefel trwythiad neu ddyddodion cyfatebol i'r hyn a ollyngir yng nghwrs y gweithrediadau hynny ac yn ddarostyngedig i'r goddefiannau technegol arferol,

(bb) "natural mineral water fortified with gas from the spring" i ddisgrifio dŵr y mae ei gynnwys o garbon deuocsid o'r un lefel trwythiad neu'r un

(**5**) OJ Rhif L164, 26.2.2009, t.45.